**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Llun, 28 Mehefin 2021 am 3.30 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C R Doyle | P K Jones | E T Kirchner |
| K M Roberts | L V Walton | |

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd M Sherwood

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Anthony Richards | Rheolwr Strategaeth a Datblygiad Tlodi a'i Atal |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Aled Gruffydd | Cyfreithiwr |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Swyddog Strategaeth a Pholisi |
| Anthony Richards | Rheolwr Strategaeth a Datblygiad Tlodi a'i Atal |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): D Phillips a/ac C Richards

---

## 4 Datgeliadau O Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 5 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi fel cofnodion cywir.

## 6 Hyrwyddo Polisi Drafft Credyd Fforddiadwy.

Cyflwynodd Anthony Richards, Rheolwr Strategaeth a Datblygiad Tlodi a'i Atal adroddiad a oedd yn gofyn am fabwysiadu polisi cyffredinol a oedd yn ymgorffori hyrwyddo credyd fforddiadwy.

Amlinellwyd bod fersiwn ddrafft o'r Polisi Hyrwyddo Credyd Fforddiadwy, sydd ynghlwm wrth Atodiad A, wedi'i chyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol ar 4 Tachwedd 2020 lle cytunwyd y gallai datblygiad y polisi symud ymlaen i ymgynghoriad cyhoeddus, cyn iddo gael ei fabwysiadu fel polisi.

Lansiwyd yr Ymgynghoriad Cyhoeddus ar fersiwn ddrafft y Polisi Hyrwyddo Credyd Fforddiadwy ar 26 Ebrill 2021 ac fe'i cynhaliwyd am gyfnod o bedair wythnos, gan gau ar 23 Mai 2021. Hyrwyddwyd yr ymgynghoriad i aelodau Fforwm Partneriaeth Tlodi Abertawe, y Grŵp Llywio Cynhwysiad Ariannol a Rhwydwaith Tlodi Bwyd Abertawe a darparwyd rhestr o aelodau'r grwpiau hyn yn Atodiad B.

Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau'r ymgynghoriad a nodwyd bod cyfanswm o bump ymateb wedi dod i law, gyda thri ohonynt gan sefydliadau'r trydydd sector. Ychwanegwyd bod yr holl ymatebwyr wedi darllen y polisi drafft a bod crynodeb llawn o ganfyddiadau'r ymgynghoriad wedi'i gynnwys yn Atodiad C.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Y nifer isel o ymatebion i'r ymgynghoriad a gafwyd o gymharu â nifer y sefydliadau y cysylltwyd â hwy;
- Proses Sgrinio Asesiad Effaith Integredig (AEI)/AEI Llawn / adroddiad i ddilyn pe bai'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor a'r amserlenni dan sylw;
- Gofyn i'r sefydliadau hynny yr ymgynghorwyd â hwy pam nad oeddent wedi ymateb;
- Yr adroddiad drafft yn gwneud materion yn anos nag y maent mewn gwirionedd.

Diolchodd y Cynghorydd L V Walton i'r Cynghorydd M Sherwood, Cadeirydd y Pwyllgor gynt, am ei gwaith ar y polisi drafft.

**Penderfynwyd ar y canlynol:** -

1) caiff rhagor o waith ei wneud i nodi goblygiadau'r polisi drafft gydag Undebau Credyd;
2) caiff rhagor o waith ei wneud i archwilio'r rhwystrau at gael gafael ar gredyd fforddiadwy a nodi amrywiaeth o opsiynau credyd fforddiadwy;
3) Cynhelir proses sgrinio AEI / AEI llawn;
4) caiff yr adroddiad polisi drafft ei gyflwyno i'r Pwyllgor cyn ei anfon i'r Cabinet i'w gymeradwyo.

## 7 Cynllun Gwaith 2021-2022.

Darparodd y Cadeirydd adroddiad Cynllun Gwaith y Pwyllgor ar gyfer 2021-2022.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Polisi Tegwch Gwyrdd;
- Polisi Dyledion Corfforaethol;
- Gweithio tuag at Ffyniant: Strategaeth Trechu Tlodi;
- Rhannu Gerddi / Polisi Tyfu Bwyd Cymunedol;
- Canllawiau Ariannol Gofal Cymdeithasol;
- Comisiwn y Gwirionedd am Dlodi yn Abertawe;
- Ymgyrch i gynyddu'r nifer sy’n hawlio Budd-daliadau.

**Penderfynwyd ar y canlynol:** -

1) Bydd y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a Joanne Portwood, Swyddog Strategaeth a Pholisi yn cyfarfod â Martin Nicholls, Cyfarwyddwr Lleoedd i drafod y Polisi Tegwch Gwyrdd ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor ym mis Awst / Medi 2021;
2) Bydd y Rheolwr Strategaeth a Datblygiad Tlodi a'i Atal yn cyflwyno adroddiad yng nghyfarfod y Pwyllgor a drefnwyd ar gyfer 26 Gorffennaf 2021 yn amlinellu egwyddorion y Polisi Dyledion Corfforaethol cyn ymgysylltu / datblygu'r polisi;
3) Caiff y Strategaeth Trechu Tlodi bresennol ei dosbarthu i'r Pwyllgor ac adroddir am yr amlinelliad / weledigaeth i'r Pwyllgor i'w hadolygu;
4) Bydd y Cadeirydd, yr Is-gadeirydd a Joanne Portwood, Swyddog Strategaeth a Pholisi yn cyfarfod â Martin Nicholls, Cyfarwyddwr Lleoedd i drafod datblygu Rhannu Gerddi ac egwyddorion Polisi Tyfu Bwyd Cymunedol;
5) Caiff adroddiad ar Ganllawiau Ariannol Gofal Cymdeithasol ei gyflwyno i'r Pwyllgor;
6) Rhoddir yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd o ran Comisiwn y Gwirionedd am Dlodi yn Abertawe yn hydref 2021;
7) Gofynnir i Jane Storer, Uwch-gynghorydd Hawliau Lles gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am yr Ymgyrch i gynyddu'r nifer sy’n hawlio Budd-daliadau yng nghyfarfod y Pwyllgor a drefnwyd ar gyfer 26 Gorffennaf 2021, os yw hi ar gael.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.10 pm

**Cadeirydd**